



## Cymorth i landlordiaid preifat sy'n rhentu eiddo i bobl sy'n gadael y carchar neu sy'n cyflawni dedfryd gymunedol



Pan fydd pobl yn cael eu rhyddhau o'r carchar, mae angen sefydlogrwydd a diogelwch arnynt i gael eu bywydau'n ôl ar y trywydd iawn. Yn rhy aml mae pobl yn cael eu rhyddhau heb le diogel i'w alw'n gartref.

Mae llawer o bobl sy'n gadael y carchar yn chwilio am **ddechrau newydd**. Cael cartref yw'r cam cyntaf ar y daith honno a gall fod o gymorth mawr i leihau'r siawns y bydd unigolyn yn aildroseddu.

Gall landlordiaid helpu drwy roi cyfle i bobl sy'n gadael y carchar gael eu bywydau'n ôl ar y trywydd iawn. Mae cymorth ar gael i helpu landlordiaid i wneud hyn.



### Pa Gymorth a Chefnogaeth sydd ar gael i Landlordiaid?

Pan fydd pobl yn cael eu rhyddhau o'r carchar neu'n treulio dedfryd gymunedol, trefnir bod ganddynt ymarferydd prawf i gynnig cefnogaeth iddynt. Bydd yn ofynnol i'r ymarferydd gael cyswllt rheolaidd gyda nhw er mwyn cydymffurfio ag amodau eu dedfryd.

Mae'r Gwasanaeth Prawf yn gweithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid gan gynnwys yr Heddlu, Gwasanaethau Troseddau leuenticid, y Ganolfan Byd Gwaith, awdurdodau addysg lleol, awdurdodau tai lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, gwasanaethau cymdeithasol, byrddau iechyd, ymddiriedolaethau'r GIG, darparwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a darparwyr gwasanaethau monitro electronig.

Mae helpu rhywun sydd ar brawf i ddod o hyd i lety sefydlog a diogel, a'i gynnal, yn rhan bwysig o rôl yr ymarferydd prawf. Wrth wneud hyn, byddant ar gael hefyd i helpu'r landlord i ddelio ag unrhyw bryderon a allai fod ganddynt.

Mae ymarferwyr prawf yn gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol, Cymdeithasau Tai a darparwyr trydydd sector i helpu i sicrhau y gall pobl sydd ar brawf gynnal eu tenantiaethau.

Mae ymarferwyr prawf hefyd yn cefnogi pobl sydd ar brawf i gael mynediad at Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, mynd i'r afael â phroblemau iechyd corfforol a meddyliol (gan gynnwys camddefnyddio sylweddau os yw'n berthnasol), helpu i reoli eu harian, eu cysylltu'n ôl â'u teuluoedd a gwella ymddygiad, cymhelliant, sgiliau meddwl ac agweddau.

Os yw'r rhai sydd ar brawf wedi'u gwahardd o ardal ddaearyddol, wedi'u hatal rhag mynd i sefydliadau penodol neu'n gorfod cynnal cyrffiw, bydd yr ymarferydd prawf hefyd yn helpu i reoli'r amodau hyn.

Yn ogystal â'r ymarferydd prawf, bydd yr awdurdod lleol (y mae'r Gwasanaeth Prawf yn gweithio'n agos ag ef) hefyd yn gallu rhoi cyngor a chymorth i landlordiaid i helpu i gynnal tenantiaethau. Gall landlordiaid wneud atgyfeiriad i'r awdurdod lleol (ar ran yr unigolyn ar brawf) os oes angen cymorth ar y rhai sydd ar brawf i helpu i gynnal eu tenantiaeth. Rhaid i'r rhai sydd ar brawf roi eu caniatâd ar gyfer yr atgyfeiriad hwn.

Gall landlordiaid gysylltu'n uniongyrchol â'r ymarferydd prawf i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt mewn perthynas â'r denantiaeth. Bydd y pryderon hyn yn cael eu trafod gyda'r gwasanaeth a chytunir ar ffordd ymlaen i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Os oes angen, gall yr ymarferydd prawf gymryd camau gorfodi.



## Sut allwch chi gysylltu â'r ymarferydd prawf?

1. Siaradwch â'ch tenant ar ddechrau'r denantiaeth a gofynnwch iddo rannu manylion ei ymarferwyr prawf gyda chi.
2. Chwiliwch am eich swyddfa prawf leol ar [www.gov.uk/probation](http://www.gov.uk/probation) chwiliwr a chysylltwch â nhw i ddod o hyd i fanylion yr ymarferydd prawf.
3. Os ydych chi'n ymwybodol bod eich tenant wedi dod allan o'r carchar yn ddiweddar neu ar orchymyn cymunedol, efallai yr hoffech wneud **cytundeb tair ffordd** gyda nhw sy'n golygu y gallwch rannu gwybodaeth gyda'u hymarferydd prawf i'w helpu i gynnal eu tenantiaeth. Bydd angen i chi gwblhau templed "cytundeb 3 ffordd" i wneud hyn. E-bostiwch y Gwasanaeth Prawf i gael copi: [wales.probationtaskforce@justice.gov.uk](mailto:wales.probationtaskforce@justice.gov.uk)



## Gwybod beth i'w ddweud a sut i'w ddweud?

Gallai siarad yn uniongyrchol â rhywun sydd newydd adael y carchar fod yn brofiad newydd i rai landlordiaid ac efallai na fyddwch yn siŵr beth i'w ddweud na sut i'w ddweud! Mae gan Shelter Cymru daflen ar gyfer landlordiaid sy'n cynnwys llawer o awgrymiadau a chyngor defnyddiol gan landlordiaid ar sut i gyfathrebu a chefnogi tenantiaid sy'n agored i niwed. Gallwch weld a lawrlwytho copi yma: [Llyfryn-Cyngor A4-Landlordiaid-Cymraeg.pdf \(sheltercymru.org.uk\)](http://sheltercymru.org.uk)

Gwyddom fod Landlordiaid weithiau'n poeni y byddant yn cael eu gadael i ymdopi ar eu pen eu hunain gyda thenant sy'n agored i niwed. Bydd ymarferydd prawf y cleient ar gael i roi cymorth a chyngor i'ch helpu i ddelio ag unrhyw heriau os byddant yn codi.



## Cefnogi pobl sydd ar brawf os ydynt yn cael trafferth talu

Os oes angen, gellir cefnogi pobl ar brawf i sicrhau eu bod yn gallu cynnal eu tenantiaeth drwy gwblhau Pecyn Cymorth Llety gyda'u hymarferydd prawf. Mae hyn yn eu helpu i reoli eu harian, sefydlu cartref, a'r hyn a ddisgwylir ganddynt pan fyddant yn llunio cytundeb tenantiaeth (Bydd unrhyw un sydd ar brawf yn cael tystysgrif i ddangos eu bod wedi ymgymryd â'r hyfforddiant hwn)

Os yw'r rhai sydd ar brawf yn cael trafferth talu rhent, siaradwch â nhw/eu hymarferydd prawf a cheisiwch drafod a chytuno ar ffordd ymlaen.

Gall landlord hefyd wneud cais gan ar-lein drwy wefan gov.uk am Daliad a Reolir i Landlord gan ddefnyddio'r gwasanaeth Gwneud Cais am Daliad Rhent Uniongyrchol i ofyn am daliad rhent o Gredyd Cynhwysol yr unigolyn sydd ar brawf.

Os yw'r unigolyn ar brawf yn derbyn Credyd Cynhwysol yna mae cymorth ychwanegol ar gael pe bai problemau'n codi. Cyn belled â'u bod yn rhoi eu caniatâd, gall y landlord siarad â'r rheolwr achos Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yr unigolyn ar brawf am bryderon rhent. Byddant yn gweithio gyda'r holl bartïon dan sylw i gytuno ar yr ateb gorau.

Os bydd tenant yn mynd i ôl-ddyledion, gall y landlord wneud cais i'r Adran Gwaith a Phensiynau i adennill yr ôl-ddyledion hynny, cyn belled â bod y tenant yn aros yn yr eiddo.

Os yw eich tenantiaid yn cael trafferth talu rhent, efallai y bydd cymorth ar gael gan eu hymarferwyr prawf, eu gweithiwr cymorth (os oes ganddynt un) neu sefydliadau eraill (gellir dod o hyd i wybodaeth gyswllt ar gyfer y rhain ar wefan Rhentu Doeth Cymru ar y dudalen Tenantiaid).

Mae'r Grant Cymorth Tai yn ariannu Awdurdodau Lleol (drwy ddarparwyr fel cymdeithasau tai a sefydliadau gwirfoddol) i ddarparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai i bobl ar brawf i'w helpu i reoli a chynnal eu tenantiaeth, megis rhoi cyngor ar reoli eu harian, cefnogi mynediad at wasanaethau sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer addysg, hyfforddiant, gwirfoddoli a chyflogaeth, a gwasanaethau i helpu i fynd i'r afael â'u hiechyd a'u lles megis iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau neu broblemau eraill y maent yn eu hwynebu. Gallant hefyd ddarparu mynediad i wasanaethau cyfryngu rhwng yr unigolyn ar brawf a'r landlord.



## Sut allwch chi helpu?

Os oes gennych eiddo i'w rentu a'ch bod yn gallu rhoi cyfle i bobl ar brawf gael eu bywyd yn ôl ar y trywydd iawn, yna rydym yn awyddus i glywed gennych. Gallwch hefyd gysylltu â ni os ydych am wybod mwy am ein gwasanaeth a sut y gallwn helpu, Gallwch gysylltu â ni drwy e-bostio [wales.probationtaskforce@justice.go.uk](mailto:wales.probationtaskforce@justice.go.uk) neu edrychwch ar <https://www.gov.uk/government/organisations/national-probation-service>